

Prin fu'r adegau yn ein hanes pan fu gymaint o angen Llyfrgell Genedlaethol ddeinamig a pherthnasol ar Gymru, un sy'n wirioneddol gredu ym mhotensial gwybodaeth a diwylliant i drawsnewid bywydau, ac yn barod i gamu i fyny a chyflawni ei rôl unigryw yn adferiad ac adnewyddiad y genedl.

Bydd ein Cynllun Strategol newydd hyd at 2026 yn datgloi cyfoeth cymdeithasol ac economaidd i bobl Cymru, drwy sicrhau y gall pob un elwa o'n casgliadau helaeth a'n hystod o wasanaethau a chymorth proffesiynol. Byddwn wrth wraidd bywyd cenedlaethol, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid strategol i ddarparu gwasanaethau sy'n cyfoethogi bywydau ac sydd o fudd i gymunedau ledled Cymru.

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol erbyn hyn wedi cael ei chydabod yn fyd-eang ers blynyddoedd lawer am ein defnydd arloesol o dechnolegau digidol i ehangu mynediad i gasgliadau. Rydym yn parhau â'n taith fel Llyfrgell Ddigidol Genedlaethol Cymru, gan drawsnewid ein ffyrdd o weithio a rhannu ein profiad a'n harbenigedd gydag eraill yn ogystal â chynyddu cyfleoedd i ymgysylltu â'n casgliadau a'n gwasanaethau.

There have been few times in our history when Wales has been in such need of a National Library that is dynamic and relevant, one that truly realises the transformative potential of knowledge and culture, and is prepared to step up and fulfil its unique role in the nation's recovery and renewal.

Our new Strategic Plan through to 2026 will unlock social and economic value for the people of Wales, ensuring that all citizens can benefit from our extensive collections and range of services and professional support. We'll be at the heart of national life, working with Welsh Government and strategic partners to deliver services that enrich lives and benefit communities throughout Wales.

The National Library has now for many years been recognised globally for our pioneering use of digital technologies to widen access to collections. We continue our journey as the National Digital Library of Wales, transforming our ways of working and sharing our experience and expertise as well as increasing engagement with our collections and services.




Ein gweledigaeth yw sicrhau newid er gwell i bawb yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol, a bod yn llyfrgell genedlaethol agored, arloesol a blaengar.

Byddwn yn gweithio tuag at wireddu'r weledigaeth hon drwy osod pedwar amcan strategol a llesiant

Our vision is to deliver change for the better for everyone in Wales now and in the future, and to be an open, innovative and progressive national library.

We'll work towards realising this vision by setting four strategic and well-being objectives




_Amcan Strategol 1

Meithrin a gofalu am
gof y genedl

_Strategic Objective 1

Cultivate and care for
the nation's memory

- Byddwn yn cofnodi profiadau amrywiol y Gymru gyfoes, gan bwysleisio pwysigrwydd cofnodi ein presennol yn ogystal â'n gorffennol
- Byddwn yn ymrwymo i amrywedd, gan sicrhau bod ein casgliadau'n gynrychioliadol o bob agwedd ar fywyd a hanes Cymru, yn enwedig y cymunedau hynny sydd wedi'u tangynrychioli yn y gorffennol
- Byddwn yn darparu arbenigedd mewn diogelu a rheoli gwybodaeth ddigidol ac arferol ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu archif genedlaethol bwrpasol i Gymru
- We'll capture the diverse experiences of contemporary Wales, highlighting the importance of recording our present as well as our past
- We'll commit to diversity, ensuring that our collections are representative of all aspects of Welsh life and history, especially communities which have been underrepresented
- We'll provide expertise in the conservation and management of physical and digital information and work with Welsh Government to establish a dedicated national archive for Wales



_Amcan Strategol 2

Gosod y sylfaen ar gyfer economi gwybodaeth

_Strategic Objective 2

Lay the foundation for a knowledge economy

- Byddwn yn darparu mynediad at wybodaeth sy'n ysbrydoli ac yn bywiogi, gan greu cyfleoedd i fusnesau a'r sector creadigol ymgysylltu â'n casgliadau
- Byddwn yn galluogi'r cyhoedd i gymryd rhan yn natblygiad y cof cenedlaethol
- Byddwn yn gwella ansawdd profiad y defnyddiwr ac yn dod yn gyrchfan i ymwelwyr ac ymchwilwyr yng Nghymru ac yn fyd-eang ar y we
- We'll enable access to knowledge that inspires and invigorates, creating opportunities for businesses and the creative sector to engage with our collections
- We'll enable public participation in the development of the national memory
- We'll improve the quality of our user experience and become a destination both for visitors and researchers within Wales and worldwide on the web




_Amcan Strategol 3

Bod wrth wraidd
bywyd cenedlaethol

_Strategic Objective 3

Be at the heart of
national life

- Byddwn yn cysylltu ag yn cydweithio â chymunedau ledled Cymru ac ar draws y byd
- Byddwn yn rhannu ein casgliadau'n eang a darparu manau i ddehongli a thrafod agweddau ar orffennol, presennol a dyfodol Cymru
- Byddwn yn hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru yn fyd-eang ac yn meithrin cysylltiadau rhyngwladol rhwng Cymru a'r byd
- We'll connect and collaborate with communities throughout Wales and across the world
- We'll share our collections widely and provide a space to interpret and discuss aspects of Wales's past, present and future
- We'll promote Welsh culture and heritage globally and foster international links between Wales and the world




_Amcan Strategol 4

Grymuso dysgu
ac ymchwil

_Strategic Objective 4

Empower learning
and research

- Byddwn yn cefnogi addysg yng Nghymru, yn enwedig y Cwricwlwm a chymwysterau ôl-16 mewn ysgolion a cholegau
- Byddwn yn gweithio gyda phrifysgolion ac ymchwil academiaidd yng Nghymru drwy gydweithio mewn meysydd ymchwil yn seiliedig ar ein casgliadau neu sy'n berthnasol i agweddau ar Gymru.
- Byddwn yn darparu llwybrau dirwyrstr i'n casgliadau, gan alluogi dysgu anffurfiol a gydol oes, ymarfer creadigol a datblygiad proffesiynol parhaus.
- We'll support education in Wales, especially the Curriculum and post-16 qualifications in schools and colleges
- We'll work with universities and academic research in Wales by collaborating in research fields based on our collections or relevant to aspects of Wales.
- We'll provide unrestricted pathways to our collections, enabling informal and lifelong learning, creative practice and continuing professional development.



_Gweithio tuag at 2026


Ar adeg o her aruthrol, rhaid inni sicrhau ein bod yn dod â'n cynllun yn fyw drwy fod yn llwyr ymwybodol o'n pwrpas a bod yn barod i weithio mewn ffordd wydn a hyblyg.

Ein cenhadaeth yw casglu, diogelu a rhoi mynediad i bob math o wybodaeth gofnodedig, yn enwedig mewn perthynas â Chymru a'r Cymry a phobl Geltaidd eraill, er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ymchwil a dysgu.

_Working towards 2026

At a time of immense challenge, we must ensure that we bring our plan to life through a clear sense of purpose and a resilient and agile way of working.

Our mission is to collect, preserve and give access to all kinds and forms of recorded knowledge, especially relating to Wales and the Welsh and other Celtic people, for the benefit of the public, including those engaged in research and learning.




Mae gennym gyfrifoldeb tuag at bobl Cymru heddiw ac yfory ac rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein cenhadaeth yn effeithiol ac yn gynaliadwy yn erbyn y meysydd gwaith canlynol:

We have responsibility towards the people of Wales today and tomorrow and we are committed to delivering our mission effectively and sustainably against the following areas of work:

_Llesiant _Well-being

Byddwn yn cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang ac yn integreiddio nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) i'n gwaith cynllunio a chyflawni.

We'll contribute positively to global well-being and integrate the goals of the Well-being of Future Generations Act (2015) into our planning and delivery.



_Effaith gymdeithasol

_Social impact

Rydym am sicrhau bod gan bobl Cymru'r sgiliau a'r llythrennedd cywir i lwyddo'n gymdeithasol, addysgol ac yn eu gwaith. Byddwn yn hyrwyddo cymdeithas gyfartal, deg a chynhwysol, gan weithio i gael gwared â thlodi, a darparu lle diogel ar gyfer trafodaeth iach, onest ac agored am bob agwedd ar fywyd Cymru.

We want to ensure that the people of Wales have the right skills and literacies to achieve social, educational and employment success. We'll promote an equal, fair and inclusive society, working to eradicate poverty, and provide a safe space for healthy, honest and open discussion about all aspects of Welsh life.



_ Cynaliadwyedd _ Sustainability

Rydym yn derbyn ein cyfrifoldeb i ymateb i'r argyfwng hinsawdd byd-eang drwy liniaru effaith amgylcheddol ein gweithrediadau. Bydd ein rhaglen datgarboneiddio yn sicrhau y cyflawnir targedau Llywodraeth Cymru.

We accept our responsibility to respond to the global climate crisis by mitigating the environmental impact of our operations. Our decarbonisation programme will ensure that Welsh Government targets will be achieved.



_Amrywedd _Diversity

Rydym wedi ymrwymo i weithio tuag at amrywedd, gan adlewyrchu cefndiroedd a phrofiadau amrywiol pobl Cymru, ac i sicrhau bod ein casgliadau a'n gwasanaethau yn hygyrch i bawb o bob cefndir a gallu.

We are committed to working towards diversity, reflecting the diverse backgrounds and experiences of the people of Wales, and to ensuring that our collections and services are accessible to everyone of all backgrounds and abilities.



_Y Gymraeg

Byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg, yn parhau i greu a rhannu cynnwys Cymraeg helaeth ar-lein ac yn annog y defnydd o'r Gymraeg ym mhob un o'n gweithgareddau.

We'll promote the Welsh language, continue to create and share extensive Welsh language content online and encourage the use of the Welsh language in all of our activities.



_Ein Galluogwyr


Bydd y canlynol yn allweddol i alluogi cyflawni ein Hamcanion Strategol a Llesiant:

- Cydweithio a phartneriaethau
- Cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol
- Gweithlu medrus ac iach
- Dealltwriaeth o ddefnyddwyr a chynulleidfaoedd
- Llywodraethiant cadarn
- Trawsnewid digidol
- Seilwaith digidol cryf a chynaliadwy
- Cyfleusterau a storfeydd carbon isel addas
- Cynhyrchu incwm a chynaliadwyedd ariannol

_Our Enablers

The following will be key to enabling the delivery of our Strategic and Well-being Objectives:

- Collaboration and partnerships
- Effective communication and engagement
- A skilled and healthy workforce
- An understanding of users and audiences
- Robust governance
- Digital transformation
- A strong and sustainable digital infrastructure
- Suitable low carbon facilities and storage
- Income generation and financial sustainability



_Ffyrdd o Weithio

Wrth gyflawni ein Cynllun Strategol, rydym yn ymrwymo i'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau ein bod yn cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Gynaliadwy ar draws ein Hamcanion Strategol a Llesiant: Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithredu a Chynnwys.

_Ways of Working

In delivering our Strategic Plan, we commit to the five ways of working of The Well-being of Future Generations Act to ensure that we apply the Sustainable Development Principle across our Strategic and Well-being Objectives: Long-term, Prevention, Integration, Collaboration and Involvement.



